GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
MANYLEB PERSON

ADRAN	Iechyd, Diogelwch a Lles (Rheoli Risg Gweithredol)
TEITL Y SWYDD	Gweinydd Iechyd, Diogelwch a Lles
RHIF Y SWYDD	503204
GRADD	6
LLEOLIAD	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Cymwysterau	Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH	Dymunol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	IOSH – Rheoli'n Ddiogel	Dymunol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
Gwybodaeth/ Profiad	Profiad o weithio o fewn rôl Iechyd a Diogelwch	Dymunol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	Profiad o baratoi a dehongli ystod o ystadegau a chynhyrchu adroddiadau	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/**Cyfweliad
	Gwybodaeth helaeth o Becynnau Microsoft Office e.e. Outlook, Word, Excel etc.	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/**Cyfweliad
	Profiad o ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol cyffredinol	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Ffurflen Gais

Arddull Bersonol	Dealltwriaeth a pharch am faterion amrywiaeth a'r gallu i fabwysiadu agwedd deg a moesol tuag at eraill	Hanfodol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/**Cyfweliad
Rhyngbersonol	**Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau gydag ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd**	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/**Cyfweliad
	Y gallu i gydweithio'n effeithiol gydag eraill	Hanfodol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	Profiad o weithio gydag ystod o bartïon â diddordeb yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad ill dau	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
	Yr ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol	Hanfodol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
Tasg	Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol	Hanfodol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo dulliau gwaith diogel ac effeithiol	Hanfodol	Ffurflen Gais/Cyfweliad
	Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais***/Cyfweliad

Gall y rôl hon gynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru.